# Taflen Wybodaeth: Gwerthfawrogi iechyd

Diolch am eich diddordeb yn yr astudiaeth hon. Cyn i chi benderfynu a ydych am gymryd rhan neu beidio, mae'n bwysig eich bod yn deall pam fod yr ymchwil yn cael ei wneud a beth fydd yn golygu i chi. Darllenwch yr wybodaeth yn ofalus. Gallwch siarad â theulu a ffrindiau am gymryd rhan yn yr astudiaeth os dymunwch. Cysylltwch â ni os oes unrhyw beth nad yw'n glir neu os hoffech ragor o wybodaeth (mae manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen wybodaeth hon).

**Beth yw pwrpas yr ymchwil?**

Pwrpas yr ymchwil hwn yw darganfod sut mae pobl yn gwerthfawrogi gwahanol agweddau ar iechyd. Mae hyn yn golygu hoffem ddarganfod pa mor dda neu ddrwg yn eich barn chi fyddai byw gyda gwahanol lefelau o afiechyd. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth bwysig a all helpu i gefnogi gwneud penderfyniadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft ar gyfer yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a NICE, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

**Pam ydych chi'n gofyn i fi?**

Rydym yn dymuno recriwtio 1430 o aelodau o'r cyhoedd. Rydym yn chwilio am bobl o'r Deyrnas Unedig o wahanol oedrannau, rhyw, ethnigrwydd a grŵp economaidd-gymdeithasol ac i gael pobl â phroblemau iechyd a rhai sydd heb.

**Oes rhaid i mi gymryd rhan?**

Na, nid oes rhaid i chi gymryd rhan. Mae cymryd rhan yn yr ymchwil yn ddewis i chi. Os nad ydych am gymryd rhan ni fydd yn effeithio arnoch mewn unrhyw ffordd.

**Beth ddylwn i ei wneud os hoffwn gymryd rhan?**

**Os hoffech gymryd rhan, dilynwch y ddolen hon i gwblhau'r ffurflen gais. Gofynnir rhai cwestiynau amdanoch ac i roi eich enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn fel y gallwn gysylltu â chi i drefnu'r cyfweliad:**

https://www.liberatingresearch.com/projects/136

Os cewch eich dewis i gymryd rhan byddwn yn e-bostio dolen atoch i ddewis dyddiad ac amser cyfweliad sy'n gyfleus i chi. Pan fyddwch wedi dewis dyddiad ac amser eich cyfweliad, byddwn yn gofyn i chi lenwi ffurflen ganiatâd ar-lein, yn dweud eich bod yn rhoi eich caniatâd  i gael eich cyfweld. Byddwn yn eich ffonio i drefnu'r cyfweliad os na fyddwch yn rhoi cyfeiriad e-bost, ac efallai byddwn yn eich ffonio os na fyddwch yn ymateb i'r e-bost.

Mae'n ddrwg gennym efallai na fydd rhai pobl yn gallu cymryd rhan. Mae hyn oherwydd efallai bod gennym ddigon o bobl eisoes yn cymryd rhan gyda'ch oedran, rhyw, ethnigrwydd neu grŵp economaidd-gymdeithasol (gan ddefnyddio cod post). Byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl os ydych wedi cael eich dewis i gymryd rhan neu beidio drwy e-bost, erbyn 31ain Awst 2023.

Gallwch dynnu'n ôl unrhyw bryd hyd at ac yn ystod y cyfweliad. Ar ôl i chi gwblhau'r cyfweliad ni fyddwch yn gallu tynnu'n ôl. Ni fyddwn yn gallu dileu eich data yr adeg hynny gan fydd y data yn ddienw felly ni allwn nodi eich atebion. Mae hyn yn golygu bydd eich data yn cael ei gynnwys i'w ddadansoddi.

**Bydda i'n cael fy nhalu am gymryd rhan?**

Os cewch eich dewis i gymryd rhan byddwch yn cael iawndal o **£50 (a delir drwy drosglwyddiad banc) neu daleb Amazon gwerth £50**. Gallwch ddewis os yw'n well gennych arian (trwy drosglwyddiad banc) neu'r daleb. Bydd yr arian neu daleb yn cael ei dalu i chi o fewn 10 diwrnod gwaith i chi gadarnhau sut hoffech gael eich talu, ar ôl i chi gymryd rhan.

Os byddwch yn tynnu'n ôl o'r astudiaeth yn ystod y cyfweliad byddwch yn dal i dderbyn yr arian neu dalebau. Os byddwch yn cytuno i gymryd rhan ond wedyn ddim yn dechrau'r cyfweliad, ni fyddwch chi'n derbyn yr arian na'r talebau.

Os ydych yn derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth (er enghraifft Credyd Cynhwysol) ac eisiau rhagor o wybodaeth am sut y gallai taliad am eich cyfranogiad effeithio ar y rhain, efallai hoffech gysylltu â'r Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth https://www.citizensadvice.org.uk/benefits/ i gael mwy o wybodaeth.

**Beth fydd yn digwydd os caf fy newis i gael fy nghyfweld?**

Byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad a fydd yn para tua 40 munud (rhwng 30 munud ac awr) gydag un cyfwelydd. Gall aelodau'r tîm ymchwil arsylwi'r cyfweliad er mwyn rhoi adborth i'r cyfwelydd at ddibenion hyfforddi. Byddwn yn trefnu'r cyfweliad ar adeg sy'n gweithio i chi. Gallwch ddewis a yw'n well gennych gael eich cyfweld **ar-lein neu wyneb yn wyneb**. Byddwch yn rhoi

caniatâd i gael eich cyfweld wrth drefnu'r cyfweliad. Mae Liberating Research yn recriwtio ac yn trefnu cyfweliadau ar ein rhan.

Os dewiswch wneud y cyfweliad **ar-lein** byddwch yn cymryd rhan gan ddefnyddio Zoom, sef meddalwedd fideo-gynadledda. Fe fydd arnoch chi angen cyfrifiadur, gliniadur neu dabled a chysylltiad rhyngrwyd. Rydym hefyd yn gofyn i chi droi eich camera ymlaen. Nid ydym yn caniatáu i unrhyw ffrindiau na pherthnasau fynychu'r cyfweliad gyda chi.

Os byddwch yn dewis cynnal y cyfweliad **mewn person**, byddwch yn cymryd rhan mewn man cyhoeddus, er enghraifft canolfan gymunedol, neuadd chwaraeon neu ar dir y Brifysgol. Bydd y cyfweliad yn cynnwys defnyddio gliniadur a ddarperir gennym ni. Yn ystod y cyfweliad byddwn yn dilyn canllawiau diweddaraf y llywodraeth ar COVID-19, ac mae’r rhain yn dal i fod yn berthnasol hyd yn oed os ydych wedi eich brechu’n llawn ar gyfer COVID-19. Os bydd canllawiau’r llywodraeth yn gofyn am gadw pellter cymdeithasol, bydd gennych chi a’r cyfwelydd liniadur a bydd yr holl offer a dodrefn yn cael eu glanhau rhwng cyfweliadau. Bydd hylif diheintio dwylo ar gael. Gall ffrind neu berthynas fynd gyda chi i'r safle cyfweld, ond ni fyddant yn cael dod i'r cyfweliad gyda chi a gofynnir iddynt aros yn y man aros. Bydd tai bach ar y safle. Ni allwn gynnig bwyd/diod yn ystod y cyfweliad.

Gofynnir i chi ddangos copi o'ch dogfen adnabod â llun i'r cyfwelydd ar ddechrau'r cyfweliad, er na fydd copïau o'r dull adnabod hwn yn cael eu gwneud.

Ar ddechrau'r cyfweliad byddwn yn gofyn i chi ateb cwestiynau amdanoch chi a'ch iechyd. Ni fyddwch yn trafod gwybodaeth iechyd breifat neu sensitif yn ystod y cyfweliad.

Yn rhan nesaf y cyfweliad byddwn yn gofyn i chi os fyddai’n well gennych fyw gyda llai nag iechyd llawn am nifer penodol o flynyddoedd o gymharu â byw heb unrhyw broblemau (iechyd llawn) am yr un nifer o flynyddoedd neu lai o flynyddoedd. Dangosir cwestiynau ymarfer i chi ac yna gofynnir i chi wneud hyn ar gyfer deg cyflwr gwahanol o afiechyd. Mae’r rhain i gyd yn gwestiynau damcaniaethol (h.y. dychmygol).

Yna byddwn yn gofyn cwestiynau i chi am eich barn am y cyfweliad. Byddwn yn gofyn cwestiynau i chi sy'n ymwneud â gwneud y dasg a chynnal y cyfweliad fel y gallwn ddeall sut brofiad gawsoch o wneud y tasgau. Byddwn hefyd yn gofyn rhai cwestiynau ychwanegol amdanoch chi a'ch iechyd.

Cyn y cyfweliad byddwn yn e-bostio dolen i'r daflen wybodaeth hon atoch. Bydd gofyn i chi lenwi ffurflen ganiatâd ar-lein cyn y cyfweliad. Os hoffech yn lle hynny gael copi o'r daflen wybodaeth wedi printio neu os hoffech wneud cais dros y ffôn, cysylltwch â Stephanie Foy yn Liberating Research ar 0203 983 2640 ac rydym yn gallu gwneud hynny. Gofynnir i chi hefyd a hoffech dderbyn eich taliad diolch o £50 mewn arian parod (trosglwyddiad banc) neu dalebau Amazon. Bydd gofyn i chi ddarparu manylion talu am arian parod (trosglwyddiad banc) neu gyfeiriad e-bost fel y gallwn e-bostio’r talebau atoch.

## Beth yw’r risgiau posibl o gymryd rhan?

Mae'r tasgau'n cyfeirio at amrywiaeth o gyflyrau iechyd dychmygol yn ogystal â marwolaeth a allai gael effaith ar sut rydych chi'n teimlo. Byddwch yn gallu stopio’r cyfweliad unrhyw bryd os dymunwch ac ni fydd eich data yn cael ei gynnwys yn yr astudiaeth.

Mae risg isel wrth gymryd rhan yn yr ymchwil. Mae risg o ddod mewn cysylltiad â COVID-19 lle bynnag mae unigolion yn symud o gwmpas, ond rydym wedi gweithredu canllawiau COVID-19 y llywodraeth i leihau'r risg hon.

## Bydd cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn cael ei gadw'n gyfrinachol?

Bydd yr holl wybodaeth a gesglir amdanoch yn ystod yr ymchwil yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol. Ni fydd yr wybodaeth a roddwch yn y cyfweliad yn cael ei defnyddio mewn unrhyw ffordd a allai ddatgelu pwy ydych. Byddwn yn dyrannu cod i'ch ymatebion a fydd yn cael ei ddefnyddio i nodi'n unigryw unrhyw ddata a ddarperir gennych yn y cyfweliad. Ni fydd eich enw yn cael ei gysylltu â'r data. Bydd eich manylion personol (yn y ffurflen gais i gymryd rhan, y ffurflen ganiatâd ac yn yr e-byst byddwch yn anfon i ddweud yr hoffech gymryd rhan) yn cael eu cadw ar wahân i wybodaeth arall a roddwch yn ystod y cyfweliad.

## Pwy yw'r rheolydd data?

Prifysgol Sheffield yw'r noddwr ar gyfer yr astudiaeth hon sydd wedi cael ei lleoli yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu ein bod yn gyfrifol am ofalu am eich gwybodaeth a'i defnyddio'n gywir.

## Beth yw’r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu fy nata personol?

Yn ôl deddfwriaeth diogelu data, mae’n ofynnol i ni eich hysbysu mai’r sail gyfreithiol rydym yn cymhwyso er mwyn prosesu eich data personol yw bod ‘prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd’

(Erthygl 6(1)(e)). Gweler rhagor o wybodaeth yn Hysbysiad Preifatrwydd y Brifysgol https://www.sheffield.ac.uk/govern/data-protection/privacy/general.

Gan y byddwn yn casglu rhywfaint o ddata a ddiffinnir yn y ddeddfwriaeth fel data mwy sensitif (gwybodaeth am eich iechyd a'ch ethnigrwydd), mae angen i ni hefyd roi gwybod i chi ein bod yn cymhwyso'r amod canlynol yn y gyfraith: bod y defnydd o'ch data yn 'angenrheidiol at ddibenion ymchwil wyddonol'.

Swyddog Diogelu Data Prifysgol Sheffield yw Luke Thompson a gallwch gysylltu â nhw am ragor o wybodaeth ar dataprotection@sheffield.ac.uk.

**Pwy fydd â mynediad at y data a ble fydd y data yn cael ei gadw?**

Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu rhannu â'r tîm astudio sy'n trefnu ac yn cynnal y cyfweliadau. Byddant yn defnyddio eich manylion cyswllt (enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn) at ddibenion cysylltu â chi am yr astudiaeth hon, i wirio os ydych yn gymwys, i drefnu eich cyfweliad, i gasglu eich manylion i dalu'r arian neu dalebau i chi, ac i gysylltu â chi ar adeg y cyfweliad os oes angen. Gofynnir i chi pan fyddwch yn darparu eich manylion a ydych am i Liberating Research gysylltu â chi hefyd ynghylch cymryd rhan mewn astudiaethau eraill. Bydd y bobl nad ydynt yn cofrestru eu manylion i gael Liberating Research gysylltu â nhw ar gyfer astudiaethau eraill yn cael eu holl ddata personol ei ddileu'n barhaol ar ddiwedd yr astudiaeth.

Gofynnir i chi drefnu eich cyfweliad ar-lein gan ddefnyddio offeryn amserlennu (Calendly). Bydd yr offeryn amserlennu yn storio eich gwybodaeth bersonol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddyddiad ac amser eich cyfweliad, enw, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost) trwy gydol yr astudiaeth er mwyn anfon e-byst cadarnhau ac atgoffa a negeseuon testun atoch am yr astudiaeth. Ni fydd yr offeryn amserlennu yn defnyddio eich gwybodaeth at unrhyw ddiben arall a bydd yn dileu eich data personol yn barhaol ar ddiwedd yr astudiaeth. I gael rhagor o wybodaeth am sut caiff eich data ei ddiogelu, gweler y polisi preifatrwydd a fydd yn cael ei gynnwys yn eich e-bost amserlennu.

Bydd yr holl ddata dienw a gesglir yn ystod y cyfweliad yn cael ei gadw'n gyfrinachol ym Mhrifysgol Sheffield a bydd copi hefyd yn cael ei storio gan EuroQol Group, noddwyr yr ymchwil. Bydd yn cael ei ddefnyddio at ddiben yr ymchwil hwn gan y tîm ymchwil, a bydd ar gael ar gyfer gwirio ansawdd data. Gall y data dienw hefyd gael ei ddefnyddio gan ymchwilwyr eraill at ddibenion ymchwil a dysgu yn y dyfodol.

**Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r ymchwil hwn?**

Bydd hyn yn darparu gwybodaeth bwysig a all helpu cefnogi gwneud penderfyniadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft ar gyfer yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a NICE, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Gellir cyhoeddi'r canlyniadau mewn cyfnodolion academaidd, eu cyflwyno mewn cynadleddau, a'u cyflwyno ar wefannau. Ni fydd neb yn gallu eich adnabod mewn unrhyw adroddiadau neu gyhoeddiadau.

**Beth os aiff rhywbeth o'i le?**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau wrth gymryd rhan yn yr ymchwil hwn, cysylltwch â thîm yr astudiaeth (manylion ar y diwedd).

Os bydd rhai o'r cwestiynau'n peri gofid i chi, neu os hoffech gael cyngor neu sicrwydd am eich iechyd eich hun, yna cysylltwch â NHS Choices (Ffôn: 111) neu eich meddyg teulu os oes angen.

Os ydych am anfon cwyn neu os oes gennych unrhyw bryderon am y ffordd y cynhaliwyd yr astudiaeth, cysylltwch â'r Prif Ymchwilydd Donna Rowen ar d.rowen@sheffield.ac.uk.

Os teimlwch nad yw eich cwyn wedi cael ei thrin yn briodol, gallwch gysylltu â:

Mark Strong, Deon yr Ysgol Iechyd ac Ymchwil Cysylltiedig (ScHARR), Prifysgol Sheffield, Regent Court, 30 Regent Street, Sheffield S1 4ED. Ffôn: 0114 222 2992.

Os yw'r gŵyn yn ymwneud â sut yr ymdriniwyd â'ch data personol, gallwch gysylltu â Luke Thompson, Swyddog Diogelu Data Prifysgol Sheffield dataprotection@sheffield.ac.uk Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud cwyn ar gael ar Hysbysiad Preifatrwydd y Brifysgol: https://www.sheffield.ac.uk/govern/data-protection/privacy/general. Os teimlwch nad yw eich cwyn wedi cael ei thrin yn foddhaol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Pwy sy'n ariannu'r ymchwil?**

Ariennir yr ymchwil hwn gan Sefydliad Ymchwil EuroQoL.

**Ydy'r ymchwil wedi'i gymeradwyo gan bwyllgor moeseg?**

Mae'r astudiaeth hon wedi cael ei hadolygu'n foesegol a'i chymeradwyo gan bwyllgor Moeseg yr Ysgol Iechyd ac Ymchwil Cysylltiedig ym Mhrifysgol Sheffield. Y rhif cyfeirnod ar gyfer yr astudiaeth yw: 048042.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymchwil cysylltwch â'r:**

Tîm ymchwil ar valuing_health@sheffield.ac.uk